
# Cymeriadau Difyr 1 – 20

| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Gwerth rhifau hyd at 20.** |
| Adnoddau: | • Llyfrau'r gyfres 'Cymeriadau Difyr: Stryd y Rhifau'.<br>• Numicon.<br>• Cardiau rhifau hyd at 20.<br>• Cownteri/botymau a gefel *('tongs')*.<br>• Clai.<br>• Gleiniau a llinynnau.<br>• Peli a hwpiau a bwcedi.<br>• Cardiau fflach – lluniau o wrthrychau o 0 i 20 – *gweler y ddogfen 'Gwerth rhifau – cardiau fflach'*.<br><br>**<u>Adnodd digidol:</u>**<br>*Gweler y ddogfen 'Gwerth rhifau – cyflwyniad'* – sef cyflwyniad sy'n dangos gwerth pob rhif o 11 i 20 wrth gyfateb pob rhif â'r nifer cywir o wrthrychau. |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>Astudio pob un o rifau/cymeriadau'r gyfres 'Cymeriadau Difyr: Stryd y Rhifau'.<br>Amrywiol ddysgwyr i ddangos numicon i gynrychioli gwerth pob rhif. Gallan nhw ddangos eu bysedd hefyd.<br>Dangos rhifau o 11 i 20. Gofyn i ddysgwyr ddangos eu gwerth gyda numicons.<br>Dysgu defnyddio numicon 10 ac yna 1 arall, ayyb.<br>Astudio'r cyflwyniad digidol.<br>Defnyddio casgliad o amrywiol wrthrychau, eu cyfri a dangos eu gwerth.<br><br>**<u>Cam 2: Gweithgaredd gyda chownteri/botymau (bysedd prysur)</u>**<br>Tasg grŵp. Y dysgwyr i osod cownteri/botymau mewn potiau i gynrychioli gwerth rhifau o 11 – 20. Gallan nhw ddefnyddio gefel *(tongs)* i godi pob botwm/cownter. Chwilio am numicon i gyfateb hefyd.<br><br>**<u>Cam 3: Gleiniau</u>**<br>Gosod y nifer cywir o leiniau ar linyn i gyfateb â gwerth rhifau o 1 i 20. Cyfateb y rhain â'r numicons cywir hefyd.<br><br>**<u>Cam 4: Clai</u>**<br>Rowlio peli o glai. Gosod 10 yn y cylch cyntaf, yna rowlio'r nifer cywir i gyfateb â gwerth rhifau o 11 i 20.<br> |



| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 5: Ardal allanol</u>**<br>Cuddio cardiau fflach yn yr ardal allanol sydd â lluniau o amrywiol wrthrychau arnynt/smotiau o werthoedd o 0 i 20. Y dysgwyr i chwilio am y cardiau, ac yna eu paru gyda'r rhifau/numicon cywir.<br><br>**<u>Cam 6: Peli/bagiau ffa</u>**<br>Peli/bagiau ffa a bwcedi/hwpiau gyda gwahanol rif o 0 i 20 ar bob un. Y dysgwyr i daflu'r niferoedd o beli/bagiau ffa cywir i bob bwced. |
| Cwestiynu: | • Faint yw gwerth y rhif _____?<br>• Sawl _______ sydd yma i gyd?<br>• Pa rif ydy hwn? |
| Beth nesaf? | Astudio gwerth rhifau hyd at 50. |

